Gwelliannau Trafnidiaeth Canol y Ddinas: Dwyrain Canol y Ddinas, Cwr y Gamlas a Man Cyhoeddus Ffordd y Brenin

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor a'i waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, cafodd cynllun Dwyrain Canol y Ddinas ei addasu. Mae'r cynigion yn cynnwys mesurau i leihau traffig-drwodd yn Nwyrain y Ddinas, hyrwyddo blaenoriaeth bysus a gwella seilwaith beicio a thir cyhoeddus.

Mae'n cynnwys mannau digwyddiadau Cwr y Gamlas a Ffordd y Brenin.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus pellach rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021.

Gweithgareddau Ymgysylltu

Derbyniodd 4490 o fusnesau a thrigolion lythyr yn rhoi gwybod am becyn gwybodaeth sydd ar gael i'w weld ar-lein yn Cadw Caerdydd i Symud, ynghyd â chynllun. Roedd hyn yn cynnwys busnesau sydd wedi'u lleoli'n uniongyrchol ar y llwybr a phob eiddo o fewn 100m i'r prosiect. Roedd yr ardal lythyru hefyd yn cynnwys busnesau yng ngorllewin canol y ddinas, fel rhai o ddefnyddwyr allweddol y ffyrdd sydd wedi'u cynnwys yn ôl troed y cynllun.

Roedd y pecyn gwybodaeth yn cynnwys cynlluniau a gwybodaeth atodol i gyd-destunoli'r cynigion.

Ategwyd hyn gan waith hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg. Cafodd y cynllun ei gynnwys ar newyddion lleol a chenedlaethol (ar-lein a phrint).

Rhoddwyd y dewis i ymatebwyr ymateb drwy Arolwg Snap neu drwy fewnflwch e-bost penodedig [dwyraincanolyddinas@caerdydd.gov.uk]

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Drwy'r mewnflwch ar gyfer y cynllun [dwyraincanolyddinas@caerdydd.gov.uk], cawsom **25** e-bost.

O'r 25 e-bost hyn:

- Ni wnaeth **72%** fynegi cefnogaeth na gwrthwynebiad ond roedd angen eglurder neu ymateb pellach ar faterion penodol (a amlinellir isod)
- Roedd **16%** yn cefnogi'r cynllun.
- Roedd **12%** yn gwrthwynebu'r cynllun.

Cafodd yr arolwg ar-lein 60 o ymatebion. Mewn ymateb i "Ydych chi'n cefnogi'r cynigion?", ymatebodd 8 o bobl 'na', ymatebodd 14 'yn rhannol' ac ymatebodd 38 'ydw'. Mae'r dadansoddiad canrannol fel a ganlyn:

Na	14%	8
Yn rhannol	23%	14
Ydw	63%	38
Cyfanswm	100%	60

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Preifat

Yn ogystal â'r ymgysylltu preifat pellach uchod, cynhaliwyd sesiynau gyda busnesau a grwpiau ymgynghori allweddol fel Gweithredwyr Bysus a Grŵp Ffocws Mynediad Caerdydd.

Roedd yr ymateb cyffredinol i'r cynllun yn gadarnhaol iawn. Codwyd rhai cwestiynau gan fusnesau ynghylch dargyfeirio traffig – bydd y mater hwn yn cael ei liniaru drwy greu llwybr parcio pwrpasol, adolygiad o arwyddion a gwaith modelu pellach i raddnodi cyffyrdd allweddol sy'n gysylltiedig â meysydd parcio.

Enghreifftiau o faterion/ymholiadau penodol

Mater
Mynediad mewn car preifat i Heol y Brodyr Llwydion – Beth yw'r trefniadau? A oes cynlluniau ar y gweill i liniaru'r tagfeydd wrth oleuadau Plas-y-Parc pan fydd y traffig yn mynd yn ôl i'r lefelau arferol?
Traffig sydd wedi'i ddadleoli – a fydd yn achosi i draffig gronni mewn rhannau eraill o'r ddinas? Sut bydd hyn yn effeithio ar ansawdd aer?
Cynnal y gamlas – pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel ac yn lân?
Modelu effaith ehangach - A yw'r effaith ar Rodfa Bute a Stryd Adam wedi'i hystyried? Pa fodelu sydd wedi'i wneud? Pa opsiynau amgen a fodelwyd? Beth yw'r: (i) arbedion o ran cyfanswm amseroedd teithio cerbydau (ii) arbedion o ran cyfanswm cilomedrau cerbydau (iii) gwelliannau o ran perfformiad y rhwydwaith cyfan a ragwelir drwy fodelu gosodiad y cynllun arfaethedig (h.y. tystiolaeth o welliannau a ragwelir i allyriadau ac ansawdd aer)? Sut mae'r arbedion hyn yn cymharu ag opsiynau eraill o ran gosodiad y cynllun (h.y. tystiolaeth o optimeiddio'r cynigion)? Pa sail dystiolaeth sydd wedi'i pharatoi / chasglu i ddangos bod y gwelliannau teithio llesol, yn enwedig y llwybrau beicio ar wahân, wedi'u lleoli ar linellau allweddol ac y byddant yn cyflawni'r targedau rhannu modd?
Llwybrau beicio deugyfeiriol - A yw llwybrau beicio deugyfeiriol yn effeithiol? Pam nad ydyn nhw'n draciau beicio unffordd ar ddwy ochr y ffordd?
Mannau parcio i bobl anabl – ble mae'r rhain yn dod i mewn i'r cynllun? A fyddant yn cael eu symud neu eu hadleoli? Faint o leoedd fydd yna? A oes colled neu enillion net? Ym mha gyfeiriad fydd y croeslinellau?
Gwaith cyfredol – a yw eisoes wedi dechrau? Plas Windsor, Heol Casnewydd ac ati.
Symud arosfannau bws Plas Dumfries – A yw'r arosfannau bws hyn yn cael eu disodli neu eu hadleoli? A fydd hyn yn effeithio'n negyddol ar fysus?
Man llwytho – pa fannau llwytho fydd yn aros?
Troad i'r dde i Blas Windsor – Sut bydd trigolion Gogledd a Gorllewin Caerdydd yn delio â hyn? A fydd yn rhaid iddynt fynd drwy ardaloedd preswyl i gyrraedd eu prif lwybr ar eu taith allan? Sut bydd y cynllun yn caniatáu i geir o Blas Windsor gael mynediad i'r M4?
Llwybrau beicio – Sut mae hyn yn cysylltu â'r rhwydwaith Beicio ehangach? Sut mae hyn yn cysylltu â thrac beicio Heol y Gogledd?

Mannau Gwyrdd – Faint o goed fydd angen eu symud yn ardal y prosiect? Pa nodweddion gwyrdd y mae'r cynllun hwn yn eu cynnwys?
Mynediad Dosbarthu Heol-y-frenhines – A yw cerbydau nwyddau trwm yn troi i mewn i Lôn Windsor yn ddiogel i gerddwyr? A oes opsiynau eraill wedi'u hystyried?

Y Camau Nesaf

- Parhau â manylion dylunio a thendro'r cynllun.
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allweddol drwy gydol y broses.